# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**12 Gorffennaf 2023**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, S P Jones, R G Parry, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng G Parry, C Thomas, J Earnshaw, H N Evans, E Law Shui Nicholson | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 07.06.23 fel cofnodion cywir. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng S P Jones yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Grant ar gyfer y maes Chwarae** – Nid yw'r arian wedi ei dderbyn eto. |
| **4.2** | **Cysgodfan Bws Engedi** - Dywedodd y Clerc na fydd y Cyngor Sir yn rhoi wyneb newydd ar y gilfan ond byddan nhw'n llenwi'r tyllau ac yn ystyried codi arwyddion dim parcio. |
| **4.3** | **Wal mynwent Llanbeulan** – mewn llaw |
| **4.4** | **Mandad y banc** – mewn llaw |
| **4.5** | **Maes Chwarae -** Mae'r Clerc wedi derbyn pris am sedd swing newydd o £120 + TAW. Mae angen dwy sedd nawr yn dilyn rhagor o ddifrod. Bydd y contractwr yn eu gosod wrth osod yr offer chwarae newydd. Bydd y Clerc yn gofyn i gontractwr lleol dynnu'r seddi swing. Bydd hefyd yn adrodd am y difrod i'r Heddlu. Cytunwyd i drafod y CCTV eto yn y cyfarfod nesaf. |
| **4.6** | **Hysbysffwrdd ger yr Eglwys** - Dywedodd y Clerc fod y rhan oedd wedi ei difrodi wedi ei symud. |
| **4.7** | **Hysbysffwrdd maes parcio yr ysgol** - Mae Cyng Law Shui Nicholson wedi mesur yr hysbysfwrdd ac ni fydd yn ffitio ar wal yr Iorwerth. Cytunwyd i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf pan fydd mwy o aelodau yn bresennol. |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 13.09.23 |

| | |
|---|---|
| **4.8** | **Mynwent Llanbeulan (gwair)** - Mae'r Cyngor wedi derbyn cwyn ynglŷn â chyflwr mynwent Llanbeulan. Mae'r Clerc eisoes wedi trefnu ei dorri. Mae'r contract ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi'i newid o 2 doriad blynyddol i 3.<br>Derbyniwyd cwyn pellach wedyn yn datgan nad yw'r gwair wedi ei dynnu o'r fynwent. Dywedodd y Clerc nad yw'r cytundeb yn cynnwys tynnu'r gwair ac nid yw erioed wedi gwneud. Bydd y Clerc yn gofyn i'r contractwr dynnu'r gwair (am gost ychwanegol) a diwygio'r cytundeb. |
| **4.9** | **Mynwent Salem** - Cytunwyd i docio'r gwrychion ym mynwent Salem. Dywedodd y Cyng Parry y bydd swyddogion y capel yn ad-dalu'r Cyngor Cymuned. Cynigiodd y Cyng Fowlie anfon manylion cyswllt contractwr ymlaen at y Clerc. |
| **4.10** | **Bull, Bryngwran** - Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda. |
| | |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar ynghylch y cyfyngiadau 20mya newydd o fis Medi. Ychwanegodd y bydd yr Heddlu fwy na thebyg yn rhoi rhybuddion i fodurwyr sy'n mynd dros y terfyn yn ystod y 6 mis cyntaf, er y bydd rhai yn cael dirwy. |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **6.1** | FPL/2023/167 Cais llawn ar gyfer gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yn 53 Styd Fawr / High Street, Bryngwran – dim sylwadau |
| **6.2** | HHP/2023/115 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Tyn y Ffynnon, Bryngwran – dim sylwadau |
| **6.3** | FPL/2022/251 Cais cynllunio llawn i ganiatáu codi ty fforddiadwy mwy yn lle'r ty fforddiadwy a gymeradwywyd ar y safle yn Lon Ty Hen, Bryngwran - Cytunwyd i wrthwynebu'r cais hwn oherwydd yr angen am dai fforddiadwy ym Mryngwran |
| | **Priffyrdd** |
| **6.4** | Cysgodfan Bws Engedi – gweler 4.2 |
| | |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Playquest – gweler 4.5 |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 13.09.23 |

| | |
|---|---|
| **7.2** | Rospa (Playsafety )- Mae'r Clerc wedi derbyn yr adroddiad archwiliad blynyddol. Yr unig eitem risg uchel yw'r seddi siglenni – gweler 4.5 |
| **7.3** | H Williams – Hysbysffwrdd – gweler 4.6 |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Bagiau gwastraff cwn - Dywedodd y Clerc ei fod wedi llenwi'r peiriannau dosbarthu gyda bagiau heddiw a bydd angen archebu mwy o stoc. Mae gan y Cynghorydd Fowlie allwedd ar gyfer y peiriannau dosbarthu ac mae'n llenwi'r peiriannau dosbarthu ond mae wedi rhedeg allan o fagiau. Mae'r Cyng Ceri Thomas hefyd wedi cynnig llenwi'r peiriannau dosbarthu. Bydd y Clerc yn trefnu i gael allwedd iddi a chyflenwad o fagiau. |
| | |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| **9.1** | Adroddiad Archwilio - Yr unig eitem a godwyd gan yr archwiliwr oedd methiant i gyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth yn unol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| **9.2** | Costau Aelodau - Costau Aelodau – Trafodwyd taliad blynyddol costau aelodau ynghyd ag unrhyw daliad ychwanegol i unrhyw aelod sydd wedi gwneud unrhyw beth eithriadol i'r Cyngor – ni chafwyd unrhyw enwebiadau. |
| **9.3** | Adolygiad cyllid - Adolygiad Cyllid – Mae'r Clerc wedi paratoi adolygiad ariannol cyfnodol. Mae gan y Cyngor ddigon o adnoddau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. |
| | Cytunwyd i dalu: |
| **9.4** | Zurich Yswiriant £493.43 |
| **9.5** | Rospa £98.40 |
| **9.6** | Ace Bus Shelters £4434.00 |
| **9.7** | Rhent maes Chwarae £80.24 |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | Llofnod……………………………Cadeirydd 13.09.23 |